# CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR
# COFNODION Y CYFARFOD MISOL RITHIOL
# A GYNHALIWYD AR NOS IAU 18/02/2021 AM 7.00pm

**1. CROESO'R CADEIRYDD & MATERION PERSONOL**

Croesawodd y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen, holl yn bresennol, i'r Cyfarfod.

**2. YN BRESENNOL**

Mervyn Botwwod (un o drigolion y pentref); Sonia Fletcher (un o drigolion y pentref); Y Gyngh. Clare Hughes; y Gyngh. Angharad Jones; y Cyngh. John Jones; y Gyngh. Laura Jones; Y Cyngh. Sirol Ifan Lloyd-Davies, y Cyngh. Gareth Owen & Eleri Thomas (Clerc).

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ymddiheurodd Y Gyngh. Mair Jones (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd ac yn cysgodi), y Cyngh. Non Jones, y Cyngh. Wil Lewis (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd), y Cyngh. Alun Price-Jones (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhynghrwyd ac yn cysgodi) a'r Cyngh. Doug Rowbotham am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**

**Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans, y canlynol:**

- **Ni adroddwyd** unrhyw droseddau ers y cyfarfod diwethaf.
- **Nid yw** gwybodaeth pellach am "Lampers" yr ardal yn hysbys i'r heddlu.
- **Parhaodd galwadau ffôn sgâm mewn gwahanol ffurf.** Anogodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Evans, aelodau'r Cyngor Cymuned i rybuddio unigolion, yn enwedig yr henoed a'r methedig i fod yn wyliadurus ac i beidio â datgelu manylion personol.
- **Yn dilyn adroddiad gan Heddlu Dyfed Powys a nifer o negeseuon ar Lwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol ynghylch dwyn cŵn**, bu cynnydd yn nifer y galwadau'n ymwneud â cherbydau ac unigolion amheus. Y neges ar gyfer unrhywun sy'n berchen ar gi (anifail anwes domestig neu'r rhai sy'n fridwyr) yw i fod yn ymwybodol o'r arfer a sicrhau diogelwch man cysgodi'r anifeiliaid. Ni adroddwyd lladrad cŵn ym Mhontrhydfendigaid, Ffair Rhos ac ardaloedd cyfagos, cyn belled.

**5. DATGAN DIDDORDEB:** Dim wedi'i ddatgelu.

**6. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 21ain Ionawr 2021**

**CYNIGIWYD** (y Gyngh. Clare Hughes), **EILIWYD** (Y Gyngh. Angharad Jones) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol bod cofnodion Cyfarfod y 21ain o Ionawr 2021, yn gywir.

**CADARNHAU COFNODION CYFARFODYDD ARBENNIG 29.01.2021; 31.01.2021 & 2.02.2021**
**CYNIGIWYD** (y Gyngh. Laura Jones), **EILIWYD** (Y Gyngh. Angharad Jones) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol bod cofnodion Cyfarfod y Cyfarfodydd Arbennig, yn gywir.

Arwyddir y Cofnodion fel rhai cywir, gan y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen pan fydd amgylchiadau'n caniatau.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Cyn Adeilad: Eglwys Dewi Sant, Pontrhydfendigaid:** Cysylltodd y Gyngh. Laura Jones â Claire, Cyngor Sir Ceredigion; cwblheir yr Holiadur cyn bo hir. Yna bydd y Gyngh. Laura Jones yn ymgynghori ag aelodau'r Cyngor Cymuned i ddarganfod os yw'r cwestiynau'n addas ac yn briodol. Dosberthir yr holiaduron drwy flwch llythyron ac ar-lein. Ceisir gweledigaeth preswylwyr ar gyfer dyfodol adeilad segur presennol yr Eglwys.

**7.2 Diweddariad: Ymateb y Cyngor Cymuned i her y Pandemig Coronafeirws.** Anogodd y Cyngor Cymuned unigolion i fod yn wyliadurus ac i gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru.

**7.3 Holodd y Gynghorydd Clare Hughes** tybed a oedd y Cyngor Cymuned yn gyfrifol am yswiriant ar gyfer arwyddion y Pentref. Eglurwyd nad yw'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol amdanynt. Cytunodd y Cynghorydd Sir Ifan Lloyd Davies i geisio gwybodaeth pellach dan law Mr Tom Delph Januirek, Cyngor Sir Ceredigion.

**7.4 Glan-yr-Afon:** parthed tanc olew, nododd ymateb gan G.S. Ceredigion nad oedd y tir a leolwyd y tanc arno, ar dir comin cofrestredig ac ni ellid canfod tystiolaeth o lwybr cerdded yn rhedeg drwy'r ardal. Nid oedd yn ymddangos bod gan y Cyngor Sir gyfrifoldeb, mewn perthynas â'r tir. Cyfrifoldeb perchennog /rheolwr y tir yw trefnu gwaredu â'r tanc olew a thrafod materion tresmasu os dymunir. *Adroddwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf bod y perchennog sef Mr Alan Phillips wedi cysylltu â Marika sydd wedi crybwyll y bydd Malcolm yn symud y tanc*. *Cytunwyd i adael y mater ar y bwrdd nes bod Cyfnod Clo Covid-19 wedi dirwyn i ben.*

**7.5 Trwsio'r fainc, Ffair Rhos**: y Cyngh. Gareth Owen a'r Cyngh. John Jones i glustnodi sylw i gyflwr y fainc**.** *Cytunwyd i adael y mater ar y bwrdd nes bod Cyfnod Clo Covid-19 wedi dirwyn i ben.*

**7.6 Adroddwyd yn ystod cyfarfod blaenorol** bod coed wedi gordyfu yng Nglan-yr-Afon. Cytunwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw i gysylltu ag Adnoddau Naturiol Cymru i geisio grantiau i osod llwybr cerdded yng nghyffiniau Glanyrafon, gan arwain at y Bont Werdd. Anfonodd Adnoddau Naturiol Cymru Bwletin Cyllideb, a oedd yn rhestru ffynonellau cyllid, y gellid ymchwilio iddynt.

Derbyniwyd gohebiaeth gan Mr Mervyn Botwood yn cwestiynu'r angen am lwybr cerdded newydd arfaethedig ar ochr ddeheuol Afon Teifi pan oedd llwybr cerdded, er mewn cyflwr truenus yn ymestyn o'r grid gwartheg i Heol yr Abaty a Stryd y Dderwen.

Gofynnwyd tybed a fyddai'n bosibl i'r Cyngor Cymuned i ailystyried y cynnig oherwydd y llwybr cerdded parod a'r materion amgylcheddol megis draenogod, llygod y dŵr, brogaod, llyffantod a madfallod ac ati. Byddai'r cynnig yn caniatau mynediad wrth gefn i'r eiddo ac o ganlyniad yn cynyddu eu bregusrwydd mewn perthynas â throseddau. Byddai angen gwaith cynnal a chadw fel tocio coed a thorri gwair ar gyfnodau penodol ar y llwybr hwn; dylai'r gwaith hwn gael ei gyflawni gan weithiwr proffesiynol gan ystyried yr amgylchedd yn ofalus. Teimlwyd nad oedd torri glaswellt yn cael unrhyw effaith ar reoli plâu.

Atgoffwyd y Cyngor Cymuned o gynnig tebyg flynyddoedd lawer yn ôl ar ochr ogleddol Afon Teifi. Arweiniodd at ddinistr coed gan gynnwys coeden dderwen hynafol yng nghyffiniau'r Bont Werdd.
***Cytunwyd i hysbysu Mr Botwood bod aelodau wedi nodi'r holl sylwadau.***

**7.7** **Gwasanaeth Ambiwlans Cymru**: yn ceisio diweddaru holl diffibrilwyr lleol a gofyn tybed a fyddai'n bosibl i'r Cyngor Cymuned i archwilio cyflwr y diffibrilwyr a'u uwchlwytho i'r Gylchdaith. https//www.thecircuit.uk. Holwyd am yr *App* ar gyfer Ceredigion. Cytunwyd i ddarganfod ble roedd diffibrilwyr wedi'u lleoli'n y Gymuned. Y Cyngh. Doug Rowbotham i ymwneud â'r dasg. Lleolir diffibriliwr ger Neuadd Pantyfedwen a Siop y Pentref. Nid oedd yn sicr os oedd diffibriliwr ar gael ger yr Abaty. *Cytunwyd i adael y mater ar y bwrdd nes bod Cyfnod Clo Covid-19 wedi dirwyn i ben.*

**7.8** **Costau'n gysylltiedig ag atgyweirio ffens y Parc:** Grant *Cynnal y Cardi*: Mae'r Gyngh. Clare Hughes yn clustnodi sylw i'r mater.

**7.9** **Adroddodd y Gyngh. Laura Jones fod deialog FB diweddar yn cwmpasu materion goryrru yn y Pentref a gofynnwyd a ellid** cyflwyno cyfyngiadau cyflymder pellach o 30mya i 20mya a mesurau gostegu traffig. Gellir cyfeirio at Bapur Gwyn sydd wedi'i ddrafftio gan Lywodraeth Cymru.

**7.10** **Adroddwyd bod polyn drydan** yn ansefydlog yn ardal chwarae Pantyfedwen. **Adroddwyd** y mater at sylw *Western Power* Distribution sydd wedi datrys y broblem. Adrdoddwyd bod y darn o dir ble yr ymgymerwyd â'r gwaith yn ymddangos yn flêr ac wedi'i esgeuluso. Cytunwyd i ddarganfod pwy oedd yn gyfrifol am y cyflwr ac i ofyn iddynt i dacluso'r ardal.

**7.11** **Torri Gwair o fewn y Pentref dros fisoedd yr Haf: penderfynwyd ceisio cynigion ar gyfer y gwaith a ganlyn** 1) Glan-yr-Afon: i gynnwys Maesydderwen o wal y Bont i 3 Pencreigiau x 3 toriad 2) Mynedfa i'r pentref oddeutu 2m o arwydd y fynedfa i gynnwys y Glas a'r ardal ger yr Eglwys x 6 toriad. 3) Neuadd Pantyfedwen x6toriad (i gynnwys ffens yr Ysgol Feithrin a'r Parc). Dyfynnu'n ôl y toriad. Dyddiad Cau: Dydd Iau 18fed Mawrth 2021 Canol Dydd.

**8. GOHEBIAETH**

**8.1** **Ymgynghoriad Canllawiau Drafft Newydd Cod Ymddygiad:** Canllawiau drafft newydd ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cynghorau Sir a Chymuned/ Tref ar wefan Ombwdsmon Cymru. Sylwadau i'w cyflwyno i communications@ombudsman.wales erbyn 28 Chwefror 2021.

**8.2** **Diogelu Cymru**: Sgamiau ynghylch brechlynnau Covid19 Vaccine: er gwybodaeth.

**8.3** **Sesiynau Hyfforddiant Rithiol**: Un Llais Cymru: nodwyd er gwybodaeth.

**8.4** **Re-Engage: Ffrind Ffôn**: unigolion 75+: er gwybodaeth.

**8.5** **Un Llais Cymru: Cyfarfod Ardal: 17.03.2021 @ 7pm:** i ddatgan ymddiheuriadau'r Cyngor Cymuned.

**8.6** **Ymgynghoriad ynghylch strategaeth Economaidd Ceredigion:** sylwadau i'w cyflwyno erbyn diwedd Ionawr 2021.

**8.7** **Menter Mynyddoedd Cambria: Cynnig ar gyfer trafodaeth. Statws Tirwedd ar gyfer mynyddoedd Cambria.** Gellir lawrllwytho'r ddogfen yn ei gyfanwedd o'r safle ar y we www.thecambrianmountains.co.uk . Cynghorwyr unigol i ymateb.

**8.8** **Ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion parthed yr ymholiad ynglŷn â'r coed ym Maesydderwen, Pontrhydfendigaid.** Roedd Mr Jon Hadlow, Cyngor Sir Ceredigion wedi archwilio'r dderwen y tu allan i 22/23 Maesyddrwen ar yr 28.10.2020 ac ni ddaeth ar draws unrhyw ddiffygion gweledol ar y goeden nac ar y glaswellt cyfagos a fyddai'n dangos bod y goeden mewn cyflwr peryglus neu'n anniogel. O ganlyniad roedd wedi argymell tocio brig y goeden mewn ymgais i unioni'r gwaith y gorffennol, heb awdurdod.

Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Sir Ceredigion bod contractwr wedi'i gyflogi a disgwylir iddo gyflawni'r dasg cyn ddiwedd mis Mawrth 2021. **Parthed y goeden sy'n sefyll ger rhif 9 Maesydderwen** cyfrifoldeb *Tai Ceredigion* yw'r darn yma o dir bellach; trosglwyddwyd i Dai Ceredigion fel rhan o'r trosglwyddiad stoc ym 2008.

**8.9** **Calor: Cronfa Cymuned Wledig Calor:** gellir cychwyn ar geisiadau ar ddydd Mercher 10 Mawrth 2021 ynghylch prosiectau sydd angen cyllid yn y Gymuned. Cytunodd y Gyngh. Claire Hughes i glustnodi sylw i'r mater.

**8.10** **Mae Cynghorau Iechyd Cymunedol** yn gweithredu fel corff gwarchod annibynnol ar gyfer gwasanaethau'r GIG yng Nghymru ac anogir unigolion i rannu eu profiadau o'r GIG gan gwblau'r arolwg ar-lein http:ow.ly/Rbpo50BwnfX neu Neges Destun 62277 – dechreuwch eich neges destun â HDCHC ac yna'ch adborth.

**8.11** **Gohebiaeth pellach: er gwybodaeth.**

**9. CYLLID**

**9.1** **"Pererin" – Ystrad Fflur-** gohebiaeth wrth Mr Jim Cowie, Cadeirydd Grŵp Cyswllt Cymunedol Ystrad Fflur: cais am gymorth ariannol ar gyfer cais cynllunio i adfer y "Pererin" a ddifrodwyd yn Ystrad Fflur. Cytunwyd i wahodd Mr Cowie i gyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned i drafod ymhellach.

**9.2** **Cruse: Gofal Mewn Galar:** Cais am gymorth ariannol. Ystyrir holl geisiadau ariannol yn ystod cyfarfod mis Mawrth y Cyngor Cymuned.

**9.3** **Cytunwyd i ofyn i Mrs Enid Hughes** tybed a fyddai'n bosibl iddi ymwneud â rôl o archwilydd ariannol mewnol y Cyngor Cymuned, unwaith eto, eleni.

**10. CYNLLUNIO**

**Dim materion cynllunio i'w hadrodd.**

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1** **Adroddwyd bod dŵr yn cronni mewn sawl lleoliad ar y palmant sy'n arwain i'r Ysgol.** Penderfynwyd adrodd y mater at sylw Cyngor Sir Ceredigion.

**11.2** **Cytunwyd i gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion** i holi mewn perthynas â'r palmant arfaethedig yng nghyffinau prif bont y Pentref.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Nos Iau 18fed Mawrth 2021 @7pm Lleoliad: Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen neu Gyfarfod Rithiol yn unol â Chanllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru.**

===================================================== (Arwyddwyd / Dyddiad)